**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

# CYLLID LLYWODRAETH LEOL - ADRODDIAD AR HYNT YR ADOLYGIAD O'R SYSTEM GYLLID LLYWODRAETH LEOL YNG NGHYMRU

## DIBEN

1. Diben y papur hwn yw diweddaru'r Pwyllgor ar hynt yr adolygiad o'r system gyllid llywodraeth leol yng Nghymru.

## CRYNODEB

2. Ar 22 Medi 2000, cyhoeddodd Cabinet y Cynulliad bapur ymgynghorol ar ddiwygio cyllid llywodraeth leol. Yr oedd y papur yn chwilio am safbwyntiau ar sut y gellid cael system symlach a chliriach. Cyflwynwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad i'r Pwyllgor (gweler LGH 03-01(p.2)), ac fe'u trafodwyd yn y Cabinet (gweler CAB(00-01)29). O ganlyniad gofynnwyd i Swyddogion wneud y trefniadau angenrheidiol mewn partneriaeth â'u cydweithwyr yn Whitehall, a lle yr oedd hynny'n briodol, â chynrychiolwyr llywodraeth leol, i fynd i'r afael â'r newidiadau arfaethedig.
3. Mae'r sylwadau isod yn amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf am hynt y gwaith o ddiwygio meysydd allweddol o'r system cyllid llywodraeth leol.

## AMSERU

4. Ar gyfer y meysydd hynny y mae angen ddeddfwriaeth sylfaenol ar eu cyfer, mae'r amseru'n ansicr: nid oedd darpariaeth ar gyfer Deddf cyllido llywodraeth leol yn sesiwn cyntaf y Senedd newydd. Y dyddiad cynharaf ar gyfer deddf felly yw Hydref 2002. Serch hynny, fe ellir cyhoeddi'r Papur Gwyn sy'n ei rhagflaenu mor gynnar â Hydref 2001. Ar gyfer y meysydd nad ydynt yn destun deddfwriaeth sylfaenol, bydd y newidiadau yn cael eu gweithredu yn ôl y drefn arferol.

## HYNT YR ADOLYGIADAU

### Cyllid Refeniw

5. Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo i sicrhau mai'r fformiwla ar gyfer yr Asesiad o Wariant

Safonol (SSA), a ailwampiwyd yn ddiweddar, yw'r dull dosbarthu mwyaf gwrthrychol o hyd. Rhoddwyd contract yn ddiweddar i gasglu data i'w fwydo i mewn i'r fformiwla ddosbarthu ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol personol. Bwriedir defnyddio'r data hwn yn y fformiwla ar gyfer y flwyddyn ariannol 2004-5. Nid oes angen cytuno ar ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer y gwaith hwn.

6. Y llynedd penderfynodd y Cynulliad a Llywodraeth Leol i barhau i ddefnyddio'r fformiwla SSA fel y prif ddull o ddosbarthu cymorth refeniw i awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r gwaith o ddatblygu a gwella'r gwahanol elfennau o'r fformiwla y cytunwyd arnynt y llynedd yn parhau. Mae'r gwaith hefyd yn parhau ar ddatblygu cytundebau polisi sy'n ymwneud â dosbarthu cymorth i'r awdurdodau lleol ar sail y canlyniadau a ddisgwylir.
7. Bwriedir adolygu'r system o osod ffïoedd a thaliadau gan awdurdodau lleol, gan gynnwys darparu canllawiau a rhesymoli'r ffioedd a'r taliadau a osodir gan y Cynulliad.

**Y System Cyllid Cyfalaf**

8. Er mwyn cyflwyno'r 'System Fenthyca Darbodus' bydd angen deddfwriaeth sylfaenol. Serch hynny, mae'r gwaith paratoi wedi cychwyn: yr ydym yn gweithio gydag adrannau Whitehall i ddarganfod sut bydd y system yn gweithredu'n ymarferol, ac mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifiaeth (CIPFA) wedi dechrau gweithio ar ei god proffesiynol. Bydd cydymffurfio â'r cod yn rhwymedigaeth statudol o dan y system newydd. Mae'n fwriad cyhoeddi'r cod drafft ym mis Tachwedd. Cynrychiolir y Cynulliad, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) a Chymdeithas Trysoryddion Cymru ar grp llywio CIPFA.
9. Dylid nodi ein bod yn aros am safbwyntiau Trysorlys ei Mawrhydi ar nifer o faterion, er enghraifft terfynau benthyca cyffredinol. Bydd y rhain yn hanfodol i'r ffordd y bydd y system newydd yn gweithio.
10. Nid oes angen deddfwriaeth sylfaenol ar yr elfennau eraill sy'n cael eu diwygio o fewn y system cyllid cyfalaf, megis adolygu'r rheoliadau buddsoddi a phrydlesu a gymeradwywyd. Mae'r trafodaethau yn parhau gyda'n partneriaid llywodraeth leol drwy'r Grp Gorchwyl a Gorffen ar y System Cyllid Cyfalaf.

**Treth y Cyngor**

11. Dewiswyd cylch ailbrisio bob deng mlynedd fel yr opsiwn gorau ar gyfer treth y cyngor. Gall y Cynulliad fynd i'r afael ag ailbrisio yn annibynnol ar Loegr ac nid yw'n ofynnol iddo benderfynu ar yr un dyddiad cychwyn ar gyfer y cylch. Y rheswm am hyn yw nad oes angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer ailbrisio ac ailbennu y bandiau treth y cyngor. Serch hynny, mae Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol yn cynghori bod angen deddfwriaeth sylfaenol os y bwriedir gwneud newidiadau i nifer y bandiau.
12. Mae trafodaethau wedi cychwyn gyda llywodraeth leol ar ffurf a dyluniad y biliau treth cyngor a'r dogfennau ategol er mwyn eu gwneud yn fwy clir a defnyddiol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys darparu'r wybodaeth ar ffurf electronig.

**Ardrethi Busnes**

13. Mae'r gwaith o ddatblygu cynllun ardrethu atodol i Gymru yn parhau, yn ogystal â datblygu cynllun cymorth gydag ardrethi ar gyfer busnesau bach. Bydd rhaid ymgynghori cyn gwneud y penderfyniadau terfynol.

## CYDYMFFURFIO

14. Fe wneir yr Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol, sy'n nodi faint o grant cynnal refeniw y mae'r Cynulliad yn bwriadu ei ddosbarthu i gynghorau ac awdurdodau'r heddlu yn unol â gofynion Adran 45 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.
15. Trosglwyddwyd y pwerau i wneud rheoliadau o dan Adran IV o'r Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 i'r Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys agweddau ar y System Cyllid Cyfalaf a drafodwyd uchod ar wahân i gyflwyno system fenthyca ddarbodus, y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol ar ei chyfer.
16. Mae gan y Cynulliad y pwer i newid y bandiau prisio drwy orchymyn o dan Adran 5 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac, yn unol â darpariaethau yn Adran 25 o'r Ddeddf, byddai gwneud gorchymyn o'r fath yn golygu y byddai ailbrisio yn ofynnol.
17. Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i gyflwyno ardreth leol atodol a chynllun cymorth gydag ardrethi i fusnesau bach.

## THEMÂU TRAWSBYNCIOL

18. Mae gan nifer o'r eitemau a geir yn y papur hwn oblygiadau i'r sectorau addysg, gwasanaethau cymdeithasol a busnes. Felly, mae copïau o'r papur hwn wedi eu hanfon at Gadeiryddion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pwyllgor Datblygu Economaidd, er mwyn iddynt hwy gael cyfle i ymateb.

## CAMAU I'W CYMRYD GAN Y PWYLLGOR

19. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r papur a rhoi sylwadau ar hynt y cynllun.
20. Enw Cyswllt: Alan Thornton, Yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol, Est. 1367